

Trosolwg

Sunday, December 15, 2019

2:45 PM

Paratowch bortffolio sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw Myfyriwr: Branwen Eleri Morgan

Rhif Myfyriwr: 1700729

Llwybr: TAR Cynradd

	Targed:	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr
Targed 1	Gwirio a gloywi'r iaith cyn cyflwyno i osgoi camsillafu/	Rwyf wedi defnyddio Cysill i wirio'r gwaith.
Targed 2	Sicrhau bod y nod wedi ei	Defnyddiais lawlyfr y modiwl a'r fanyleb asesu er mwyn sicrhau fy mod i wedi

Egwyddor 1: Enghraifft 1 - Asesu ar gyfer dysgu.

27 December 2019 12:28

“Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.”

Gwers Fathemateg adio y Dosbarth Derbyn.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
1. Rhaid adnabod y symbolau er mwyn cwblhau'r dasg ffocws sy'n ymdrin â'r symiau adio. 2. Rhaid adnabod y rhifau a'r symbolau er mwyn cwblhau'r dasg.	• Dangos bodiau. • Cwestiynu'r disgyblion gan wneud tasg i gloi i brofi eu dealltwriaeth.

Asesu ar gyfer dysgu = Dangos bodiau.

Sesiwn Gloi	Holi cwestiynau ar y carped - Bydd hwn yn profi dealltwriaeth y disgyblion ac yn uwch oleuo'r disgyblion sydd efallai heb ddeall ac angen help ychwanegol. Gan ddefnyddio bwced ac arian mi fyddaf yn gwneud sesiwn cloi gan gyfri gyda'r disgyblion faint o arian sy'n cael ei rhoi yn y bwced.	Ymateb i gwestiynau'r athrawes gan ddefnyddio'r sgiliau cyftri ac adio a ddysgwyd yn flaenorol o fewn y wers.	• Bwced metal. • Ceiniogau.
-------------	---	---	--



Dyma'r disgyblion yn dangos eu dealltwriaeth ar ôl cwblhau darn o waith.

Yn ystod y wers Fathemateg wedi'i selio ar y pwnc adio ar gyfer y Dosbarth Derbyn fe ddefnyddiais i'r dechneg dangos bodiau er mwyn profi dealltwriaeth y disgyblion. Y rheswm pam y penderfynais i ddilyn y strwythur asesu ar gyfer dysgu hwn, oedd er mwyn cadw cysondeb o fewn fy ngwersi i gyda gwersi'r athrawes ddosbarth. Pan oeddwn i wedi bod ar gyfnod arsylwi o fewn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, gwelais y strategaeth yma'n gweithio'n dda gan fod y disgyblion yn deall beth oedd ei bwrpas ac yn ymateb mewn modd synhwyrol a dealladwy.

Enghraifft 2 - Asesu ar gyfer dysgu.

28 December 2019 15:19

Gwers Thema y Dosbarth Derbyn.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Defnyddio ansoddeiriau addas i ddisgrifio'r gwrthrych.	- Dangos bodau. - Cwestiynu'r disgyblion.

Asesu ar gyfer dysgu = Cwestiynu'r disgyblion.

Sesiwn Gloi	Mi fyddaf yn gofyn cwestiynau am yr hyn y maen wedi ei dysgu. Bydd yn ddiddorol gweld pwy fydd yn hoffi datblygu'r syniad yma i weithgaredd ymestynnol ar hanes dawnsio Cymreig. E.e. gwneud symudiadau clocsisio.	Bydd y disgyblion yn adfyfrio ar y wers gan ymateb i gwestiynau'r athrawes ac yn dangos ei dealltwriaeth trwy dangos bodau.
--------------------	---	---



Dyma'r disgyblion yn cynnal trafodaeth am yr hyn y maent yn ei weld yn ogystal â gofyn ac ymateb i unrhyw gwestiynau a ofynnwyd e.e. Yn ystod y dasg yma roeddwn yn trafod gwrthrychau hen a newydd. Atebodd y plant nifer o gwestiynau e.e. ydych chi'n credu fod y gwrthrych yma'n perthyn i'r pentwr o hen bethau neu bethau newydd? Pa liw yw'r gwrthrych? Pwy sy'n gallu dweud wrthyf i os ydy'r gwrthrych yn llyfn neu yn arw?

Yn ystod y profiad o fod ar leoliad, darganfyddais bod cwestiynu'r disgyblion yn ffordd dda o asesu dealltwriaeth y disgyblion. Drwy ofyn cwestiynau i'r disgyblion, roeddwn i'n dod i adnabod eu dealltwriaeth cyn ac ar ôl y wers. Roedd hwn yn caniatáu i mi fesur faint oedd y disgyblion wedi dysgu ar ôl y wers. Defnyddiais gwestiynau caeedig ac agored er mwyn cael amrywiaeth o atebion. Wrth ofyn cwestiynau i'r disgyblion roedd hi'n amlwg mai'r disgyblion mwyaf hyderus a siaradus oedd yn ymateb; felly, fe wnes i bwynt o newid fy arferion o ofyn cwestiwn i bawb. Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ymateb i gwestiwn, fe gyflwynais strategaethau newydd i ateb cwestiynau e.e. arddangos esiampl dda o sut i eistedd yn smart a gwneud pwynt o ddefnyddio'r dechneg llaw i fyny er mwyn ateb cwestiwn. Gweithiodd hwn yn dda er mwyn disgyblu'r disgyblion ac, felly, cefais drawstoriad o ddisgyblion yn cynnig ateb i'r cwestiynau a ofynnwyd. Er mwyn derbyn ateb cywir yn aml, roedd angen ail ofyn y cwestiwn mewn modd mwy syml neu ofyn i ddisgybl arall helpu'r unigolyn oedd yn ceisio ymateb. Drwy ddefnyddio'r broses yma, llwyddwyd i gael asesu cyfoedion ac asesu ar y cyd.



Gwelwyd y disgyblion yn y llun yma yn ateb
cwestiynau ar ôl gwrandao ar gyflwyniad Plant
Mewn Angen.

Enghraifft 3 - Asesu ar gyfer dysgu.

28 December 2019 15:20

Gosod seren a dymuniad ar ddiwedd bob darn o waith.

Roedd cynnwys y daflen asesu yn fanwl iawn gyda phwyslais ar ddangos bodiau er mwyn profi dealltwriaeth, blychau er mwyn ticio i ddweud os oedd y gwaith wedi cael ei gyflawni'n unigol, neu fesul pâr/ grŵp, a hefyd targed ffurfio ar gyfer gwella sgiliau.



Taflen asesu.

Ar gyfer pob darn o waith gan bob un plentyn o fewn y dosbarth derbyn, roedd rhaid i mi osod taflen asesu yn y llyfr.



Ar ôl i'r disgybl orffen y gwaith, roeddwn i wedi gosod un seren a un dymuniad.

Yn yr achos yma, y seren oedd "Da iawn" a'r dymuniad oedd ffurfio "s" yn gywir.

Dyma sticer "Ffurio" - Roedd y disgyblion yn ymwybodol o ystyr y sticer ac, felly, yn gwybod bod angen iddynt ymarfer y llythyren neu rif yn eu llyfrau ymarfer.



Gwelwyd yma bod y disgybl wedi ymarfer y llythyren "s" ar ôl derbyn y dymuniad.

Mae Ysgol X wedi gwneud penderfyniad pendant ynglŷn â marcio gwaith y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae wedi nodi ym mholisi'r ysgol ei bod nhw yn gosod un seren ac un dymuniad ar gyfer pob darn o waith. Felly, wrth i mi farcio llyfrau'r disgyblion, roeddwn i'n gosod un seren ac un dymuniad. Y rhan fwyaf o'r amser roedd y dymuniad wedi'i selio ar ffurfio llythrennau neu rifau. Felly,

ar ôl i'r gwaith gael ei farcio, byddai'r disgyblion yn ymarfer ffurfio'r llythrennau neu rifau yn eu llyfrau ymarfer fel y gwelwyd yn yr atodiad o waith Disgybl A uchod. Credaf fod gosod gair yn hytrach na brawddeg i ddisgrifio'r gwaith yn addas iawn ar gyfer oedran y plant yn y dosbarth derbyn. Roedd y disgyblion yn hoffi gweld seren ar eu gwaith a hefyd yn gwybod beth oedd y symbol dymuniad a sticer ffurfio yn ei olygu. Felly, roedd eu dealltwriaeth nhw o'r system i'w weld yn glir.

Enghraifft 4 - Asesu ar gyfer dysgu.

28 December 2019 16:47

Gwers Chwaraeon - Gymnasteg


Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
1. Dilyn <u>camau cynhesu'r athrawes.</u> 2. Modelu <u>siapau clir a phendant.</u> 3. Teithio'r <u>siâp mewn modd synhwyrol.</u>	• Asesu dealltwriaeth o siapau trwy gofyn i'r disgyblion ymgorffori'r siap.

Asesu ar gyfer dysgu = Arddangos eu dealltwriaeth mewn modd corfforol.

Sesiwn Gloi	Mi fyddaf yn gofyn cwestiynau am yr hyn y maent wedi ei dysgu. Er mwyn profi dealltwriaeth mi fyddaf yn gofyn i unigolion arddangos siapau amrywiol i'r dosbarth a dangos y dechneg maent wedi'i ddefnyddio er mwyn teithio'r siâp.	Bydd y disgyblion yn adfyfrio ar y wers gan ymateb i gwestiynau'r athrawes ac yn dangos ei dealltwriaeth trwy dangos yr hyn y maent wedi bod yn gweithio ar e.e. y siapau.
-------------	---	---

Er mwyn asesu ar gyfer dysgu o fewn fy ngwers addysg gorfforol yn seiliedig ar y camp gymnasteg, fe ddefnyddiais y strategaeth bodiau yn ogystal â ddefnyddio strategaeth lle bu'r disgyblion yn arddangos y siapau drwy ddefnyddio'u cyrff. Profodd hwn pwy oedd wedi bod yn gwrando ac wedi deall yr ystod o siapau amrywiol y gallai'r corff ei wneud.

Dyma'r disgyblion yn arddangos eu siapau yn gorfforol.



Siâp Triongl



Siâp Seren

Siâp Cylch

Egwyddor 2: Enghraifft 1 - Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.

27 December 2019 12:30

"Drwy addysgu a dysgu da bydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Gwers Dyniaethau - Yr Ardal Leol

Ffocws Gwers:	Fy ardal leol.
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	- Dysgu am leoliad eu hardal leol. - Defnyddio a llunio mapiau syml er mwyn darganfod ble y mae lleoedd penodol a sut y mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill. - Ymchwilio i sut y mae lleoedd yn newid, e.e. y tywydd, y tymhorau.
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Iaith, Llythrennedd, cymhwysedd digidol, celf, dearyddiaeth.

Gwelwyd yma fod gan y wers ddyniaethau nifer o haenau amrywiol, gan gynnwys nifer o wahanol bynciau.

Llythrennedd

Cymhwysedd Digidol

Rhifedd

Aeth bob disgybl o'r dosbarth derbyn am dro i'w hardal leol.



Datblygodd y disgyblion sgiliau **rhifedd** wrth chwilio am rifau ar y tai.


Cafodd sgiliau **llythrennedd** eu datblygu wrth i ni edrych i weld a oedd enw gan y tai a'r heol.




Gwelwyd yma fod y disgyblion wedi creu map ar lawr y dosbarth ac wedi defnyddio **sgiliau cyfathrebu** wrth osod y map i fyny.



Dyma'r disgyblion yn defnyddio'i sgiliau dylunio a thechnoleg er mwyn creu'r adeiladau a welwyd ar ei daith.



Yn ystod cyflwyniad y wers ddaearyddiaeth am yr ardal leol dysgais reolau l'r disgyblion ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel ar y ffordd. Roedd y cyflwyniad yma'n bwysig i'r disgyblion gan mai'r dasg nesaf oedd mynd am dro. Cyflwynais y cyflwyniad ar ffurf 'PowerPoint' gan ddefnyddio'r **bwrdd gwyn rhyngweithiol**. Er mwyn cadw diddordeb a gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn canolbwyntio defnyddiais y **pen rhyngweithiol** gan ofyn i'r disgyblion ddod allan i dynnu llun o'r hyn y roedden nhw wedi dysgu am reolau'r ffordd.



Dyma enghraifft o waith un disgybl a oedd yn mynegi'r ffaith bod angen edrych cyn croesi'r heol.

Defnyddiodd y disgybl sgiliau **cymhwysedd digidol** i ffurfio'r llun a sgiliau **llythrennedd** i ffurfio'r llythyren 'e' am edrych.

Enghraifft o wers drawsgwricwlaidd a addysgwyd oedd y wers ar yr ardal leol. Fel y gwelwyd uchod, aeth y disgyblion allan am dro i archwilio'u hardal leol gan ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg o'r pethau a welwyd o'u cwmpas. Datblygodd y disgyblion nifer o eiriau Cymraeg a dysgwyd sut i'w defnyddio mewn brawddegau wrth i ni drafod yr hyn a welwyd a'r hyn sydd o'n gwmpas ni bob dydd. Datblygodd y disgyblion sgiliau celf a chreffft wrth adeiladu tai, eglwysi, goleuadau stryd a nifer o bethau eraill. Roedd hi'n amlwg bod y disgyblion wedi'u diddori wrth weithio gan fod pob un ohonynt ar dasg. Fe adewais i'r dysgwyr arwain y dysgu er mwyn creu map o'r hyn a welwyd ar eu taith. Yn ychwanegol at hynny dysgodd y disgyblion sut i ddefnyddio cyfarwyddiadau gan ddefnyddio'r 'Bee Bot'. Roedd eu sgiliau codio wedi datblygu wrth i ni ddysgu beth oedd troi i'r chwith ac i'r dde. Roedd y wers yma wedi caniatáu nifer o agweddau trawsgwricwlaidd a nifer o gyfleoedd o amrywiaeth o fewn y wers.

Enghraifft 2 - Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.

28 December 2019 15:38

Gwers Thema - Beth sydd yn y bocs?

air Cwricwlm	
Cysylltiadau ystyrlon	Llythrennedd, rhifedd, Hanes, Dearyddiaeth, celf, DT, Dawns.
â:	
Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	

Llythrennedd ar lafar

Rhifedd



Dyma'r disgyblion yn **cyfri** nifer y gwrthrychau a oedd yn y cylchoedd.

Gwelwyd yma fod y disgyblion yn trafod y gwrthrychau mewn brawddegau llawn gan ddefnyddio dechrau brawddegau e.e. mae'r doli yn ...

Penderfynodd un disgybl arwain y dysgu i chwarae rôl ac felly cawsom elfen o ddrama yn ystod y wers yn ogystal.

Drwy chwarae rôl, roedd y disgybl yn defnyddio sgiliau **iaith a llythrennedd**. Llwyddodd y disgybl roi'r iaith Gymraeg yn ei chyd-destun e.e. y defnydd o frawddegau.

Roedd cynnwys y wers thema 'Beth sydd yn y bocs?' wedi cynnwys datblygiad iaith, sgiliau cyfri a thrafodaeth o Gymru a'i hanes. Cyfunodd y maesydd amrywiol yma at ei gilydd er mwyn creu un wers ddiddorol lle roedd y disgyblion wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau e.e. gwyllo, gwrandao, teimlo, a grwpio gwrthrychau yn ddau gylch, sef gwrthrychau hen a newydd. Drwy gyfranogi yn y wers yma, datblygodd y disgyblion wybodaeth newydd a'i rhoi mewn cyd destun wrth arbrofi gyda'r gwrthrychau.

Enghraifft 3 - Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.

28 December 2019 15:38

Gwers Chwaraeon - Gymnasteg

Ffocws Gwers:	Gymnasteg – Llyfr Dewi Dinosor.
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	Dangos mwy o reolaeth a chydysymud mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan arddangos sgiliau corfforol sylfaenol a defnyddio amrywiaeth o gyfarpar, gan weithio'n ddiogel yn eu gofod eu hunain.
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Chwaraeon, llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a chreadigol.

Cymhwysedd Digidol = Trosglwyddo'r stori ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Llythrennedd = Darllen stori Dewi Dinosor.

Rhifedd = Y defnydd o siapau



Dyma'r plant yn arbrofi â'u cyrff wrth greu siâp triongl.



Pwy sy'n gallu gwneud cylch? Dewi!



Pwy sy'n gallu gwneud seren? Dewi!



gallu gwneud triongl? Dewi!

Dyma lyfr Dewi Dinosor.

Yn ystod y wers a welwyd uchod, fe wnes i ffocysu ar gyfuno llythrennedd a symudiad corfforol â'i gilydd. Roedd y wers gymnasteg wedi'i gosod ar stori Dewi Dinosor. I gychwyn y wers, cawsom y stori ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn Neuadd fawr yr ysgol gyda'r disgyblion yn arddangos y siapau wrth i ni ddarllen y stori. Roedd hon yn wers hwylus iawn l ddisgyblion y Dosbarth Derbyn gan ein bod ni'n darllen stori mewn modd gwahanol yn hytrach nag yn eistedd ar y carped yn y dosbarth.

Egwyddor 3: Enghraifft 1 - Dysgu blaenorol.

27 December 2019 12:31

“Mae addysgu a dysgu da’n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.”

Wrth brofi'r egwyddor addysgol uchod, fe wnes i ddarganfod bod y disgyblion yn mwynhau gweithio wrth chwarae â gwrthrychau naturiol neu wrthrychau y maent yn gyfarwydd â nhw e.e. toes, tywod, a'r awyr agored. Roedd ein gwers yn y goedwig wedi dangos dealltwriaeth y disgyblion o'r siapau 2D yr oedden nhw wedi bod yn dysgu amdnynt yn y dosbarth. Llwyddodd y disgyblion arddangos y siapau gan ddefnyddio darn o gordyn neu frigau. Roedd y disgyblion wedi bod yn archwilio wrth edrych yn fanwl ar beth oedd yn arwynebedd y siâp e.e. Beth oedd yng nghanol y cylch? Pridd, mwydod, dail a.y.b.



Yma gwelwyd y disgyblion yn creu siâp cylch gan ddefnyddio darn o gordyn.



Y cam nesaf i'r disgyblion oedd darganfod beth oedd yn arwynebedd y cylch e.e. y dail, mwd, mwydod. Gwelwyd enghraifft o arwynebedd y cylch yma.

Enghraifft 2 - Dysgu blaenorol.

28 December 2019 15:39

Gwers Mathemateg - Adio

Wrth fod ar leoliad, defnyddiais y strategaeth o ymchwilio dysgu blaenorol y disgyblion drwy holi cwestiynau i'r athrawes ddosbarth ac edrych ar lyfrau gwaith y disgyblion er mwyn gwybod ar ba lefel oedd pob un disgybl. Roedd y wybodaeth a gasglwyd wrth ymchwilio yn fuddiol i mi wrth greu cynlluniau gwers er mwyn ehangu dysgu'r disgyblion ymhellach. Roedd y sgiliau a ddysgwyd i'r disgyblion yn flaenorol yn dylanwadu ar y sgiliau a oedd yn cael eu ddatblygu yn ystod fy ngwersi i. Fy mwriad i oedd datblygu'r sgiliau sylfaenol yma ymhellach er mwyn i'r disgyblion dangos cynnydd o fewn eu gallu a'u sgiliau personol nhw.


Yn flaenorol yn y wers mathemateg byddai adio yn cael ei dysgu drwy gyfri ar y carped, ar y cyd â dyblu rhifau trwy ddefnyddio'r dull "dwbl pump yw deg". Roedd y disgyblion yn gyfarwydd â'r dull adio ar lafar gan ddefnyddio ystumiau dwylo i'w cefnogi, ond yn cael anhawster wrth gysylltu enw'r rhif a siâp y rhif e.e. nid oedd y disgyblion yn cysylltu dau gyda 2.

Y cam nesaf I ddisgyblion y Dosbarth Derbyn oedd gweithredu'r hyn a ddysgwyd ar lafar o ran adio a dyblu ar bapur. Er mwyn hybu llwyddiant o fewn y gweithgaredd yma fe baratiais weithgaredd ymarferol a oedd yn defnyddio'r symbolau mathemategol e.e. adio ac yn gwneud. Drwy gyfranogi yn y gweithgaredd yma dysgodd y disgyblion beth oedd y symbolau mathemategol yn cynrychioli, yn ogystal â gallu adnabod y symbol yn weladwy ar ddam o bapur a'i ddefnyddio ar lafar.



Gwelwyd y disgybl yn gweithio allan y sym 'un yn fwy na 2' yn y llun yma.

(Un yn fwy = Golyga'r term yma un yn ychwanegol at rif e.e. un yn fwy na 2 yw 3.
Modd arall o esbonio'r sym yw $2 + 1 = 3$)



Yn y lluniau yma gwelwyd y disgyblion yn defnyddio'u profiad blaenorol o 'un yn fwy' ar lafar fel sym adio ar bapur. Dyma oedd y cam nesaf o ddatblygu sgiliau rhifedd i'r disgyblion yn y dosbarth derbyn.

Yn ogystal â hynny, dyma oedd cyfle'r disgyblion i ddatblygu sgiliau ysgrifennu gan ddefnyddio pen bwrdd gwyn. Roedd hwn wedi ehangu ar eu sgiliau blaenorol o ffurfio rhifau gan ddefnyddio'u bys yn y glitter, tywod, reis a halen.

Enghraifft 3- Dysgu blaenorol.

28 December 2019 15:39

Ardaloedd cyfoethogi'r ddarpariaeth.

Pwrpas yr ardaloedd cyfoethogi yn y dosbarth derbyn oedd atgyfnerthu'r dysgu blaenorol ac i baratoi'r disgyblion ar gyfer y tasgau ffocws e.e. y wers fathemateg ar adio. Felly, wrth i mi gynllunio ardaloedd cyfoethogi'r ddarpariaeth, roeddwn yn creu tasgau a oedd yn atgyfnerthu'r hyn yr oeddwn i am ddysgu'r disgyblion o fewn y dasg ffocws. Roedd yr ardaloedd yma yn helpu'r disgyblion i gysylltu siâp y rhif, enw'r rhif ac yn datblygu'r sgiliau i ffurfio'r rhif yn annibynnol.



Yn y llun yma gwelwyd disgybl yn ymarfer ffurfio rhif mewn glitter.



Mae'r disgyblion yn ymarfer ffurfio rhifau mewn amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. tywod, glitter, halen ac, yn y llun yma, gwelwyd reis.



Gwelwyd strategaeth adnabod rhifau yn y llun yma. Roedd angen i'r disgyblion adnabod y rhif gan gyfri a gosod y nifer o leiniau ar y ffon.



Yma gwelwyd bwcedi a botymau. Y nod oedd i'r disgyblion adnabod y rhif a oedd ar y bwced gan osod y nifer o fotymau yn y bwced e.e. Yn y llun yma gwelwyd bwced gwyn gyda roced rhif 3 arno. Roedd 3 botwm wedi cael ei osod yn y bwced.

Lleolir fy mhrofiad addysgu proffesiynol mewn ysgol gynradd Gymraeg ger Abertawe. Dyma ysgol mewn ardal ddifreintiedig a di-Gymraeg ac, felly, rhoddir pwyslais enfawr ar ddatblygu'r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol. Cefais y profiad o addysgu yn y Dosbarth Derbyn gyda 35 o ddisgyblion yn y dosbarth. Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth derbyn o'r un nifer a gweithia'r ddau ddosbarth o fewn yr un ardal agored. Cynhelir unrhyw weithgareddau e.e. mynd am dro i'r ardal leol, sioe Nadolig a gwasanaethau ar y cyd gyda'r ddau ddosbarth.

Trafodir tair egwyddor addysgol yn y traethawd hwn a sut rwyf wedi mynd ati i weithredu'r tair, sef asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a dysgu blaenorol. Y rhesymeg dros benderfynu ar y tair egwyddor benodol yma oedd oherwydd mai dyma'r rhai amlwg a oedd wedi fy natblygu i fel athrawes yn y dosbarth. Chwaraeodd yr egwyddorion yma ran bwysig iawn yn fy natblygiad i a datblygiad y disgyblion. Arbrofais ar y cychwyn cyn gallu eu gweithredu'n gywir wrth i'r amser fynd yn ei flaen. Datblygodd dealltwriaeth y disgyblion trwy weithredu'r camau a ddangoswyd yn yr enghreifftiau darluniadol ac, yn sicr, dangosais gynydd ar fy nhaith wrth ddod i ddeall gwir ystyr yr egwyddorion yma.

“Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.”

Golyga asesu ar gyfer dysgu modd i ddarganfod gwybodaeth am gynydd disgyblion a'r ffordd y maent yn dysgu er mwyn arwain a chefnogi'r camau nesaf o ran dysgu'r disgyblion. Gellir aralleirio “asesu ar gyfer dysgu” fel “asesu er mwyn dysgu”. Dyma sut mae athrawon yn dod i adnabod y disgyblion o fewn eu dosbarthiadau ac, felly, yn gallu paratoi gwersi addas ar eu cyfer. (Black,P et al.,2011).

“Assessment for learning is the process of seeking and interpreting evidence for use by learners and their teachers to decide where the learners are in their learning, where they need to go and how best to get there.” (Assessment Reform Group (2002)

Nodir gan Wiliam a Black (1998) bod defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn y modd cywir yn gallu dylanwadu'n fawr ar ddisgyblion gan arwain at un neu ddwy radd yn uwch o gynydd mewn arholiadau (e.e. TGAU). Yn ychwanegol at hynny, sonnir bod rhai technegau asesu ar gyfer dysgu yn gallu bod yn gamarweiniol i ddisgyblion e.e. Nid yw dangos bodiau yn ffordd ddibynadwy o asesu ar gyfer dysgu oherwydd bod rhai disgyblion yn darganfod y ffordd rwyddach o gwblhau'r gwaith, er mwyn dweud eu bod nhw'n deall yn hytrach na chymryd eu hamser i wir ddeall ystyr y gwaith. Mynega William a Black bod y ffordd mae athrawon yn gosod adborth ar ddarnau o waith yn gallu cael effaith bositif neu negyddol ar hunanhyder a chred disgyblion am eu gallu personol.

“Some marking reinforces under-achievement and under-expectation by being too generous or unfocussed.” (Wiliam,D. Black,P.1998:5)

Ond, ar y llaw arall, dywedir hefyd bod asesu ar gyfer dysgu yn profi dysgu effeithiol drwy roi dealltwriaeth glir i'r disgyblion o'r gwendidau yn eu gwaith er mwyn gosod nod cyflawnadwy i wella ar y gwaith hynny.

Drwy gyfeirio at yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd o ‘asesu ar gyfer dysgu’ yn ystod fy mhrofiad o addysgu, cyfeirir at y defnydd o ddangos bodiau, cwestiynu disgyblion a rhoi adborth ar lafar ac wrth farcio gwaith.

Un o'm targedau cyntaf a'r ôl dysgu fy ngrŵp ffocws cyntaf oedd cofio defnyddio'r strategaeth dangos bodiau er mwyn profi dealltwriaeth y disgyblion. Ar ôl derbyn y

targed yma, gweithredais arno. Gwelwyd bod y disgyblion yn deall ystyr y 'bodiau fyny neu i lawr' ac, fel, arfer, roedd y disgyblion yn mynegi eu barn yn hyderus. Defnyddiodd y disgyblion y bodiau fyny ac i lawr er mwyn mynegi mwynhad o fewn y wers yn ogystal â dangos eu dealltwriaeth. Roedd gweld bod y disgyblion yn deall ac yn mwynhau'r gweithgaredd yn dangos bod y gwaith wedi'i osod ar lefel briodol i bob un ohonynt ac yn fy helpu i wrth baratoi gwersi am y dyfodol.

Ar ddechrau'r broses o addysgu grwpiau ffocws, sylweddolais fod angen gwneud y gweithgareddau'n fwy gweledol i'r disgyblion e.e. yn ystod fy ngwers thema ar wrthrychau hen a newydd, nid oedd y ddau bentwr o wrthrychau (hen a newydd) yn amlwg iawn i'r plant. Felly, er mwyn dangos cynnydd yn fy nealltwriaeth o anghenion addysgu disgyblion 4 a 5 oed, cyflwynais ddau gylch. Cylch melyn ar gyfer y gwrthrychau newydd a chylch coch ar gyfer yr hen wrthrychau. Ar ôl gwneud y newidiadau bychan yma, gallai'r plant rannu'r gwrthrychau'n well ar ôl gweld dau gylch bendant.

Roedd fy rheolaeth dosbarth wedi sefydlu o'r cychwyn ac, felly, wedi fy helpu mewn nifer o ffyrdd gwahanol o fewn fy nghyfnod yn y Dosbarth Derbyn, yn enwedig wrth gwestiynu'r disgyblion, oherwydd eu bod nhw wedi dysgu wrthyf fod angen bod yn amyneddgar a rhoi llaw i fyny er mwyn ateb cwestiwn. Defnyddiais lawer o gwestiynu yn ystod ac ar ddiwedd fy ngwersi er mwyn profi dealltwriaeth y disgyblion, ac er mwyn asesu ar ba lefel oedd y plant a beth oedd eu cynnydd. Wedi cwplw o wersi, wrth ofyn cwestiynau i'r dosbarth, y duedd oedd cael ymateb gan y disgyblion mwyaf hyderus ac, felly, nid oedd disgyblion tawel y dosbarth yn cael cyfle i ateb. Felly, darganfyddais ffordd wahanol o sicrhau bod pawb yn y dosbarth yn cael cyfle i ymateb i gwestiynau. Cyflwynais strategaethau amrywiol fel y sonnir yn enghraifft ddarluniadol 2.

Fel y gwelir yn enghraifft 4 o 'asesu ar gyfer dysgu', sonnir am system marcio'r ysgol. Roedd y system ei hun yn hawdd i'w weithredu ac yn ddigon syml i'w ddilyn. Un seren ac un dymuniad oedd angen ar gyfer bob darn o waith.

Mae Sherrington (2019) yn nodi'r 17 elfen roedd Rosenshine yn gweld yr oedd eu hangen ar lawr y dosbarth. Un ohonynt oedd:

"Provide systematic feedback and corrections" (Sherrington.T, 2019:6)

Gwelwyd bod polisi'r ysgol yn dilyn cyngor Rosenshine bod angen system dynn o ran asesu er mwyn sicrhau cynnydd.

Yma, gwelwyd ymchwil sy'n pwysleisio pwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu.

"Right now, as far as we know, there is nothing that teachers can develop in their practice that will have a bigger benefit for their students than making more use of classroom formative assessment, and the cost of doing this is actually quite modest". (Wiliam,D. 2016:241)

Ond gwelwyd isod bod Didau.D yn awgrymu bod angen bwlch weithiau rhwng asesu crynodol ac asesu cyson ffurfiannol:

"Suprisingly, there is empirical evidence that delaying, reducing and summarizing feedback can be better for long term learning than providing immediate, trial-by-trial feedback". (Didau,D. 2019:261)

Yn ogystal â hynny, roedd rhaid i mi dynnu lluniau o waith y disgyblion a'u gosod mewn 'picollage' er mwyn eu gludo yn eu llyfrau ymarfer. Ar gychwyn y daith nid oeddwn i'n cofio tynnu lluniau o waith pob un disgybl ac, felly, nid oedd hwn yn cael ei gwblhau. Ymglyfarwyddais â'r system wrth i'r gwersi fynd yn eu blaen ac, felly, sicrhau bod y lluniau yn cael eu tynnu. Gwelwyd bod y system yma'n anodd i'w dilyn wrth i mi ddysgu'r dasg ffocws a chadw llygaid ar weddill y dosbarth yn yr ardaloedd cyfoethogi ar yr un pryd. Nid oedd y broses yma'n profi gwelliant; yn hytrach, roedd

yn broses o gasglu tystiolaeth. I raddau mae'n system sy'n drwm o ran gwaith gweinyddol heb, bob amser, arwain at gynnydd.

"Marking is usually conscientious but often fails to offer guidance on how work can be improved." (Black,P. Wiliam,D.1998:5)

-

"Trwy addysgu a dysgu da bydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Golyga cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd gyfuniad o wersi llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

"Cross-curricular learning occurs when the skills, knowledge and attitudes of a number of different disciplines are applied to a single theme, problem, idea or experience." (Barnes,J. 2015:62)

Drwy ddadansoddi'r gwersi a gynlluniwyd ar gyfer y dosbarth derbyn, roedd y sgiliau trawsgwricwlaidd yn cael eu mewnbynnu i'r wers mewn modd naturiol. Y rheswm am hyn oedd bod y sgiliau a ddysgodd y disgyblion yn y dosbarth derbyn yn gyfres o sgiliau craidd a oedd yn cael eu hailadrodd yn gyson trwy gyfranogi mewn gweithgareddau amrywiol. Roedd y disgyblion yn ailadrodd y dysgu mewn modd gwahanol bob tro er mwyn datblygu sgiliau a gwella eu dealltwriaeth.

Pwrpas gwneud y gwersi'n drawsgwricwlaidd yn ôl Barns (2015) yw helpu disgyblion i weld pynciau a phroblemau fel un agwedd yn hytrach na "gwrs Gymraeg a gwrs mathemateg" fel enghraifft. Y bwriad yw addysgu'r sgiliau fel sgiliau bob dydd a dysgu'r disgyblion i adalw'r wybodaeth o bob math o bynciau a'u cyfuno.

"Talk for Writing proposes that all text types should be introduced orally at reception age and built on systematically across the years... These skills once taught in literacy lessons can then be embedded and developed across the curriculum". (Strong,J. Corbitt,P.20011:43)

Mae Strong a Corbitt yn credu'n gryf y dylid addysgu patrymau iaith a sgiliau ieithyddol mewn sesiwn iaith ac yna atgyfnerthu'r dysgu wrth astudio pynciau eraill.

Noda Barnes (2015) fod dysgu gwersi trawsgwricwlaidd yn gallu bod yn effeithiol er mwyn codi safonau gwaith y disgyblion.

"cross-curricular methods can be effective in teaching and researching ethical solutions, building individual and group motivation sustaining interest and raising standards" (Barnes,J.2015:62)

Cytuna Barton â'r dyfyniad uchod gan ei fod yn pwysleisio pwysigrwydd llythrennedd ar draws y cwricwlwm i sicrhau sgiliau sylfaenol disgyblion.

"the literacy skills we need as teachers, the small bits of knowledge which, if we apply them consistently across our classrooms, will help our pupils to become more confident in our subject as well as in their more general skills of speaking, listening, thinking, reading and writing, as well as the skills we need for our own day-to-day work in, say, explaining, questioning and writing reports" (Barton,G.2013:2)

Yn yr un modd, mae Barnes hefyd yn pwysleisio bod dysgu gwersi trawsgwricwlaidd yn gallu cael effaith negyddol ar y disgyblion.

"Cross-curricular approaches can equally be made ineffective by trivializing, confusing, misleading, constructing new misconceptions and also by failing to provide a moral context for learning." (Barnes,J. 2015:63)

Noda Boaler (2012) bod cysylltiadau rhwng addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd yn gallu cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad disgyblion. Felly, wrth gynllunio fy ngwersi, roeddwn wedi sicrhau bod y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yma wed cael eu cynnwys o fewn fy ngwersi i. Nod pwysig wrth gynhyrchu cynlluniau gwers oedd sicrhau bod y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yma, sef rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol, ond yn cael eu defnyddio i bwrpas.

Bu dysgu gwersi trawsgwricwlaidd yn fodd i atgyfnerthu dysgu'r disgyblion ac i gynyddu eu dealltwriaeth a'u hyder (Ofsted 2002). Ond, yn ôl Brenshaw (2015), anfantais gwersi trawsgwricwlaidd yw bod disgyblion yn cael anhawster trosglwyddo'r sgiliau o un pwnc i'r llall gan eu bod nhw'n gyfarwydd â gwneud y pynciau ar wahân. Ni welwyd yr anawsterau yma yn fy mhrofiad i o addysgu oherwydd seilir fy mhrofiad yn y dosbarth derbyn ac, felly, mae'r disgyblion ar ddechrau eu taith ddysgu.

Roedd sicrhau bod fy ngwersi'n drawsgwricwlaidd yn digwydd yn naturiol wrth i mi gynllunio gwersi ar gyfer y dosbarth derbyn, a hynny oherwydd bod disgyblion o'r oedran yma'n dysgu llawer wrth ailadrodd gweithgareddau; felly, roedd y defnydd o iaith a rhifedd yn digwydd yn aml er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chynnydd y disgyblion. Roedd llythrennedd ysgrifenedig ychydig yn fwy anodd i'w fewngorffori i bob gwers oherwydd oedran y disgyblion. Awgryma Whitehead (2009) bod llythrennedd wedi ei wreiddio **drwy gyfathrebu** rhwng plant ac oedolion yn hytrach na mewn geiriau a llythrennedd. Gwelwyd hwn yn glir wrth addysgu'r dosbarth derbyn, enghraifft o lythrennedd ar lafar oedd fy ngwers 'Beth sydd yn y bocs?' (enghraifft 2.)

Ar ôl derbyn y targed bod angen i mi ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn amlach yn ystod fy ngwersi, gweithiais ar y targed gan sicrhau bod elfen o gymhwysedd digidol yn y wers nesaf. Er mwyn llwyddo i gyrraedd y targed yma roedd rhaid i mi ymchwilio i'r pwnc er mwyn gwella fy sgiliau a'm dealltwriaeth o ran technoleg ddigidol. Drwy ganfod y wybodaeth angenrheidiol a oedd angen arnaf, cefais gyngor gan athrawes ddosbarth Blwyddyn 1 a oedd yn deall sut i weithredu'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn y dosbarth. Dangosodd yr athrawes yma i mi sut i ddefnyddio'r pen rhyngweithiol er mwyn fy mod i'n gallu modelu a chynnwys y disgyblion yn y gweithgaredd. Roeddwn i hefyd wedi mynd ati i baratoi pwyntiau pŵer mwy diddorol gan ddefnyddio animeiddiadau. Wrth ddefnyddio'r animeiddiadau a'r pen rhyngweithiol, golygai hyn bod y disgyblion yn cymryd mwy o sylw o'r cyflwyniad. Profais, felly, bod defnyddio'r sgiliau digidol yma yn diddanu ac yn cynnal sylw'r disgyblion ac, felly, yn cael effaith gadarnhaol ar y wybodaeth a ddysgodd y disgyblion. Gwelir hyn yn enghraifft ddarluniadol 1 a 3. Roedd defnyddio'r sgiliau llythrennedd yn ystod fy ngwers chwaraeon yn arddangos modd amrywiol o'u cyflwyno, gan fod y disgyblion mwy creadigol wedi talu mwy o sylw i'r stori gan ein bod yn gwneud y dysgu yn fwy corfforol yn hytrach nac eistedd a gwrando.

Ar ôl gweithio ar y targed uchod, llwyddais i gynnwys cymhwysedd digidol bron ymhob un cyflwyniad o bob gwers. Drwy wneud pwyntiau pŵer i ddangos lluniau a throsglwyddo gwybodaeth, defnyddio'r daflen 'paint' er mwyn arddangos a modelu sut i ffurfio llythrennau a rhifau fel y gwelwyd yn y wers ar yr ardal leol sef enghraifft 1. Roedd y disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau rhyngweithiol ar y sgrin e.e. roeddwn i'n rhoi'r cyfle iddynt arbrofi ar y sgrin gan ddefnyddio'r pen rhyngweithiol i ffurfio lluniau, llythrennau a rhifau yn annibynnol.

"Mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb."

Gwelwyd yr egwyddor yma'n dylanwadu ar y gwersi a gynlluniwyd i'r dosbarth derbyn oherwydd roeddwn yn paratoi gwersi a oedd yn ehangu ar wybodaeth flaenorol y disgyblion. Drwy wneud hynny, roeddwn yn rhoi profiadau i'r disgyblion ac

yn ehangu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bynciau penodol.

"Learners need enough previous knowledge and understanding to enable them to learn new things; they also need help making links with new and previous knowledge explicit.' (Pritchard, 2009:106)

Mynega Richards a Lewis (2010) bwysigrwydd ymchwilio i mewn i wybodaeth a phrofiad blaenorol y plant drwy arsylwi a gwerthuso'r dysgu blaenorol. Dyma'r man cychwyn i athrawon ar broses dysgu plant. Nodwyd bod y broses o wneud yn siŵr fod yr athrawes yn deall y camau blaenorol yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion wrth ehangu ar eu gwybodaeth. Seilir y wybodaeth yma yn benodol ar yr hyn a arsylwyd, a natur cartref y disgyblion, gan fod dysgu blaenorol bob un disgybl yn wahanol oherwydd eu hoedran. Dywed Richards a Lewis (2010) fod rhaid deall ar ba lefel mae'r disgyblion cyn eu herio. Wrth gyfeirio at fy enghreifftiau, gwelwyd fy mod i wedi arsylwi'r dysgu blaenorol cyn cynllunio gwersi drwy weithio gyda'r disgyblion yn yr ardaloedd cyfoethogi, sgwrsio gyda'r athrawon, a siarad yn uniongyrchol â'r disgyblion. Gwelir effaith gadarnhaol ar yr egwyddor yma o ran fy mhrofiad dysgu i yn ystod y cyfnod yn y Dosbarth Derbyn gan fy mod, erbyn diwedd y cyfnod, wedi llwyddo gyfarwyddo â gwybodaeth flaenorol y disgyblion.

Ar ddechrau'r Profiad Addysgu Proffesiynol yn y dosbarth derbyn, un o'm targedau cyntaf ar leoliad oedd dod i adnabod y dysgwyr a'u gallu unigol er mwyn medru gwahaniaethu'r gwaith i'w lefelau personol. Wrth gychwyn proses ymchwilio i lefelau gallu'r unigolion, darganfyddais y broses yn un anodd gan fod 35 o ddisgyblion yn y dosbarth. Y camau cyntaf o ran darganfod gwybodaeth am yr unigolion oedd sgwrsio gyda'r mentor dosbarth. Roedd y sgwrs a gafwyd yn ddefnyddiol i mi er mwyn deall bod pob un disgybl wedi'i osod mewn grŵp lliw penodol yn ôl ei gallu ac, felly, roedd y gwaith yn cael ei wahaniaethu o fewn y grwpiau hynny. Yn ogystal â hynny, edrychais ar 'INCERTS': dyma'r rhaglen mae'r ysgol yn defnyddio er mwyn dilyn targedau a nodi cynnydd penodol pob un disgybl. Roedd y rhaglen yn nodi beth ddylai disgyblion y Dosbarth Derbyn anelu ato er mwyn dangos cynnydd.

Wrth addysgu nifer o wersi amrywiol megis chwaraeon, daearyddiaeth, hanes, Cymraeg a mathemateg, daeth lefel gallu'r plant yn fwy amlwg gan, felly, ddylanwadu ar y math o waith roeddwn i'n paratoi iddynt. Gan fod y dosbarth yn amrywio llawer o ran lefelau gallu e.e. bu rhai unigolion yn gallu ysgrifennu enw ac eraill yn methu, roedd rhaid i mi wneud yn siŵr bod y gwaith a baratowyd yn addas ar gyfer pob un plentyn. Felly, roedd yna wahaniaethu o ran grwpiau ac yn aml gwahaniaethu o fewn y grwpiau hynny yn ogystal.

Roedd dysgu disgyblion 4 a 5 oed yn gosod pwyslais enfawr ar addysgu'r pethau cywir er mwyn sicrhau bod datblygiad yn digwydd o fewn addysg y disgyblion. Roedd y dysgu blaenorol yn rhan sylfaenol o'r hyn y roeddwn i'n ei addysgu. Elfen bwysig roedd Rosenshine yn gweld yr oedd angen ar lawr y dosbarth oedd adolygu dysgu blaenorol cyn symud ymlaen:

"Begin a lesson with a short review of previous learning"
(Renshine, 2019. yw T. Sherrington (gol), 2019:6).

Pwrpas yr hyn y roeddwn i'n ei addysgu oedd er mwyn datblygu sgiliau'r disgyblion a mynd â'r dysgu gam ymhellach er mwyn iddynt ddeall a dysgu wrth gyfranogi yn y gweithgareddau. Wrth gychwyn y broses o ddewis gwersi i addysgu, nid oedd y broses yn un hawdd gan fod y dysgu blaenorol yn wahanol ym mhrofiad pob un disgybl. Felly, o ran y broses gynllunio, y modd mwyaf dilys o ganfod gwybodaeth gefndirol oedd addysgu grwpiau o ddisgyblion ar y tro er mwyn darganfod ar ba lefel oedd eu gwybodaeth, a beth oedd eu dealltwriaeth gychwynnol. Wrth ddadansoddi'r hyn y roedd y disgyblion eisoes yn gwybod o brofiadau blaenorol, roeddwn i'n gallu datblygu'r ardaloedd cyfoethogi a'r tasgau ffocws i'w lefel priodol fel y gwelir yn enghraifft 3 ar y dudalen ddysgu flaenorol.

Fel y sonnir yn enghraifft 1 o ddysgu blaenorol, her a gododd yn ystod fy mhrofiad o addysgu oedd dysgu'r disgyblion i adalw'r wybodaeth a ddysgwyd yn flaenorol mewn un man yn y dosbarth i weithio mewn ardal gwbl wahanol. Yr enghraifft a ddefnyddiais er mwyn profi'r weithred yma oedd bod y disgyblion wedi llwyddo i drosglwyddo eu sgiliau adnabod siapau 2D yn y dosbarth i weithio a chreu siapau 2D yn yr ardal tu allan yn y goedwig. Profodd y wers gyntaf yma gyda'r grŵp glas bod rhai disgyblion o'r oedran yma yn cael anhawster adalw gwybodaeth mewn ardal ddysgu wahanol oherwydd eu bod nhw'n cysylltu'r dysgu ag ardaloedd penodol o fewn eu hardal gweithio. Ac oherwydd hynny, nid oedd rhai unigolion wedi deall y dasg. Wrth arsylwi ar weithredoedd y grŵp yma sylweddolais efallai bod angen i'r disgyblion gael eu hatgoffa am y dysgu blaenorol trwy fodelu enghraifft. Drwy ddadansoddi'r wers yma gyda'r mentor dosbarth penderfynwyd bod angen esbonio'r dasg mewn modd gwahanol er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. Roedd y camau nesaf a ddilynais wrth ail ddysgu'r wers i grŵp gwahanol wedi sicrhau cynnydd yn fy nealltwriaeth o sut mae plant y dosbarth derbyn yn cofio ac yn adalw gwybodaeth. Felly, er mwyn goresgyn yr anhawster adalw gwybodaeth i rai unigolion, roedd rhaid i mi fodelu enghraifft o siâp 2D i atgoffa'r disgyblion am y wers a gafwyd yn y dosbarth yn flaenorol.

Defnyddiais yr un math o strategaethau wrth addysgu'r wers adio a welir yn enghraifft 2, gan fod gofyn i'r disgyblion adalw gwybodaeth mewn modd wahanol e.e. nodi'r symiau ar bapur yn hytrach na'u dweud ar y cyd gydag ystumiau dwylo. Wrth gyflwyno'r wers yma gyda'r grŵp ffocws, sylweddolais pa mor anodd oedd y disgyblion yn gweld cysylltu'r sgiliau a ddysgwyd ar lafar gyda'r sgiliau o ysgrifennu'r symiau. Nid oedd y disgyblion yn gwneud y cyswllt rhwng y ddau ac, felly, defnyddiais dechneg Vygotsky o sgaffaldu er mwyn cynorthwyo'r disgyblion.

Y targed a osodwyd gan fy mentor dosbarth ar ddiwedd fy nghyfnod oedd ymweld â dosbarth blwyddyn 1 er mwyn datblygu strategaethau gwahanol o addysgu. Byddai datblygu strategaethau newydd yn hybu fy nysgu i fel darpar athrawes ac, felly, yn gosod heriau i mi er mwyn treialu strategaethau anghyfarwydd ar hyn o bryd. Felly, fy nghamau nesaf er mwyn datblygu yw ymchwilio i strategaethau asesu ar gyfer dysgu disgyblion ychydig yn hŷn. Gan y lleolir fy mhrofiad nesaf ym mlwyddyn 3, bydd strategaethau gwahanol i'w dilyn.

“Where anyone is trying to learn, feedback about their efforts has three elements - the desired goal, the evidence about their present position, and some understanding of a way to close the gap between the two.
(Sadler,R.1989:10)

Byddaf yn cadw'r dyfyniad yma mewn cof wrth ddatblygu'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn ystod fy ngwersi er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella eu gwaith. Byddaf yn sicrhau mwy o hunanasesu ac asesu cyfoedion yn ystod fy ngwersi y tro yma gan fod y disgyblion yn ddigon hen i fynegi barn synhwyrol am waith eu hunain ac eraill. Dywed Sadler (1989) bod hunanasesu ac asesu cyfoedion yn hynod o bwysig er mwyn i'r disgyblion ddeall y targedau.

“It is very difficult for students to achieve a learning goal unless they understand that goal and can assess what they need to do to reach it.”
(Sadler,R.1989:49)

Yn ogystal â defnyddio hunanasesu ac asesu cyfoedion rhaid i mi sicrhau bod yr adborth a roddir i ddisgyblion yn briodol ac yn cael ei fynegi yn y ffordd gywir er mwyn lleihau'r risg y cyfeirir ato yn y dyfyniad isod.

“Assessment feedback teaches pupils with low attainments that they lack 'ability', so they are de-motivated, believing that they are not able to learn.”
(Black,P.Wiliam,D.1998:6)

Rhestr Gyfeiriadau

27 December 2019 12:32

- Assessment Reform Group (2002) *Assessment for learning*
https://www.assessmentforlearning.edu.au/profesional_modules/intro_2_afl/introduction_key_questions.html Darllennwyd: 17/12/19
- Barnes.J (2015) *Cross-curricular Learning 3-14* London:SAGE Publications Ltd
- Barton.G (2013) *Don't call it Literacy* Abington:David Fullton Book
- Black.P, Harrison.C, Lee.C, Marshall.B, Wiliam.D (2003) *Assessment for Learning - Putting it into practice* Maidenhead:Open University Press
- Black.P, Wiliam.D (1998) *Inside the black box* Lodon:GL Assessment Limited.
- Brentshaw.K, (2015) *Is Crosscurricular Crucial?* <https://www.stemtastic.co.uk/single-post/2015/09/03/Is-Cross-Curricular-Crucial> Darllennwyd: 12/12/19
- Corbett.P, Strong.J (2011) *Talk for Writing across the Curriculum* Maidenhead:The Open University Press
- Didau.D (2014) *The secret Literacy* Carmarthen:Indemandant Thinking Press
- Didau.D (2019) *Making kids cleverer* Carmarthen:Crown House Publishing Ltd
- Estyn (2016)*Disadvantages of crosscurricular teaching*
<https://www.estyn.gov.wales/search?search=disadvantages+of+crosscurricular+teachig> Darllennwyd: 19/12/19
- Kerry.T (2015) *Cross-curricular Teaching in the primary school* Abingdon:Routledge
- Reddy.K (2016) *Formative Evaluation* <https://content.wisestep.com/formative-evaluation-importance-advantages-disadvantages/> Darllennwyd: 23/12/19
- Robinson.C, Bingle.B, Howard.C (2015) *Your Primary school based Experience* Northwich:Critical Publishing.
- Sherrington.T (2019) *Rosenshine's Principles in action* Melton:A John Catt Publication
- Siencyn.S (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer* Caerfyrddin:Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Spink.E, Boys.R (2013) *Primary Curriculum Teaching the foundation subjects* London:Bloomsbury Academic.
- Taylor.W (2012) *Children and young people's workforce* Essex:Pearson.
- Wiliam.D (2016) *Leadership for Teacher Learning* Florida:Learning Services International